astudiaeth achos

Carmarthenshire CONNECT

CYSWLLT Sir Gaerfyrddin

Hybu Technoleg sy'n Hybu Cymunedau!

Astudiaeth Achos ar Estyn Allan gan Gyswllt Sir Gaerfyrddin

Karlis Ozolins
Swyddog Maes TGCh

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn orolwg cryno o sesiwn estyn allan arferol ar gyfer grwpiau cymunedol. Cyflwynwyd y sesiwn hon i grŵp cymunedol 'Scribes R Us' yn Nyffryn Aman Uchaf. Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn eu helpu i hyrwyddo eu grŵp, a'u gwaith, drwy dechnolegau digidol newydd, gan gynnwys technoleg ffôn symudol a blogio.

Cefndir

Mae 'Scribes R Us' yn grŵp o awduron creadigol sy'n seiliedig yn Nyffryn Aman Uchaf. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i rannu straeon a hanes ac i drafod eu gwaith creadigol. Mae gan y grŵp dros ddeg o aelodau a, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae eu gwaith wedi arwain at ryddhau pedwar llyfr byr sy'n dangos eu gwaith i eraill.

(Grŵp awduron Scribes R Us)

Fe gysylltodd y grŵp â thîm Cyswllt Sir Gaerfyrddin am y tro cyntaf yn gynnar yn 2008, i ddarganfod mwy am y prosiect a'r ffordd y gallai eu helpu i hyrwyddo eu gweithgareddau. Roedden nhw'n awyddus i gymryd rhan yn y prosiect a gofynnwyd i Gyswllt Sir Gaerfyrddin gyflwyno sesiwn estyn allan i'r aelodau yn ystod cyfarfod nesaf y grŵp.

Diben Cynnwys y Gymuned

Diben cynnwys y gymuned yn y lleoliad hwn oedd dangos sut mae modd defnyddio technoleg ffôn symudol i gymryd ffotograffau digidol a fideos, i arddangos y defnydd o flogiau a blogio ac i esbonio sut allai'r technolegau hyn fod o fudd i'r grŵp.

Y Broses o Gynnwys y Gymuned

Ar ddechrau'r cyfarfod, fe gyflwynodd y swyddog prosiect y prosiect i'r grŵp gan esbonio sut yr oedd blog Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn gweithredu fel canolfan gymunedol ar-lein a sut fyddai modd defnyddio technoleg ffôn symudol i gofnodi cyfryngau digidol i'w cyhoeddi ar y blog.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, fe fu'r swyddog maes yn helpu aelodau'r grŵp i ddefnyddio technoleg ffôn symudol yn ymarferol. Fe fu'r grŵp yn cynnal ymarfer byr gyda'r dechnoleg (fel cael yr aelodau i gymryd ffotograff neu fideo o'i gilydd) i gyflwyno'r dechnoleg ffôn symudol iddyn nhw a'u helpu i ymgyfarwyddo â'r dechnoleg.

(Llun a gymerwyd ar ffon symudol wrth ymarfer)

Nod yr ymarfer hwn yw codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gellir defnyddio camerâu a fideos ffonau symudol er budd grwpiau, a thynnu sylw at y ffordd y gellir eu defnyddio i gynhyrchu deunyddiau ar gyfer blogio.

Wedi gorffen y dasg hon, roedd yna gyfle i'r grŵp holi unrhyw gwestiynau ynghylch y dechnoleg a'r prosiect. Gwneir hyn i sicrhau bod pob aelod yn cael dealltwriaeth dda o'r dechnoleg a'r prosiect.

(Arweinydd y grŵp gyda Swyddog Prosiect Cyswllt Sir Gaerfyrddin)

Rhan olaf y sesiwn oedd arddangos blog Cyswllt Sir Gaerfyrddin a'r ffordd y mae'n gweithredu fel canolfan ar gyfer gweithgarwch cymunedol.

Yn dilyn y sesiwn, cyhoeddwyd y cyfryngau a gofnodwyd gan y grŵp ar flog Cyswllt Sir Gaerfyrddin.

Yn y pendraw, arweiniodd y sesiwn estyn allan hon at ddau gyswllt pellach gan gynnwys gweithdy ymarferol ar flogio a phrosiect fideo.

Manteision ac Anfanteision

Manteision

- Grwpiau'n dod i gyswllt â thechnoleg newydd mewn gosodiad diogel, cyfeillgar.
- Gyda chymorth Cyswllt Sir Gaerfyrddin mae grwpiau'n gallu creu perthynas rhwng y dechnoleg a'u gweithgareddau nhw, a'i defnyddio i gymryd ffotograffau a fideos a hyrwyddo eu gwaith ar-lein.
- Fe allai'r sesiwn arwain at ddysgu pellach o fewn y grŵp.
- Caiff gwybodaeth ei chynhyrchu ar gyfer gwefan Cyswllt Sir Gaerfyrddin, gan hyrwyddo'r grŵp ar-lein.
- Mae'r sesiwn yn codi ymwybyddiaeth o dechnolegau digidol newydd.

Anfanteision

- Cyflynwyd sgiliau TGCh digidol cymharol sylfaenol i'r grŵp.

Cyfeiriadau

http://www.carmsconnect.org.uk/labels/Scribes%20R%20Us.html